

# Aelod y Bwrdd

**PROFFIL RÔL AELOD Y BWRDD**

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau llwyddiant Barcud: am bennu ei genhadaeth a'i werthoedd; diffinio amcanion strategol a goruchwylio'r gwaith o'u cyflawni. Maent hefyd yn gyfrifol i sicrhau bod asedau Barcud yn cael eu diogelu, a'i fod yn parhau'n hyfyw yn ariannol - a'r cyfan yn unol â'r cyfansoddiad, y gyfraith a gofynion rheoleiddiol. Y Prif Weithredwr ac aelodau eraill y Tîm Arwain sy'n gyfrifol am reoli Barcud o ddydd i ddydd.

Mae rheolaeth o ddydd i ddydd yn gyfrifoldeb y Prif Weithredwr y Grŵp a'r aelodau eraill o'r Tîm Arweinyddiaeth.

## Prif bwrpas y rôl

- Gweithredu o fewn y pwerau a nodir yng nghyfansoddiad y gymdeithas
- Hyrwyddo llwyddiant y gymdeithas er budd ei thenantiaid, lesddeiliaid, phreswylwyr, ei chwsmeriaid eraill a'i rhanddeiliaid
- Ymarfer barn annibynnol
- Ymarfer gofal, sgil a diwydrwydd rhesymol

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

### Cyflawni rôl y Bwrdd

Gyda'r aelodau eraill o'r Bwrdd, cyfrifoldebau Aelod y Bwrdd yw:

- Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, statudol, cyfansoddiadol a rheoleiddiol
- Gosod a sicrhau cydymffurfiaeth â gwerthoedd, gweledigaeth, cenhadaeth ac amcanion strategol y sefydliad, gan sicrhau ei lwyddiant hirdymor
- Pennu natur a graddau'r risgiau sylfaenol y mae'r sefydliad yn barod i'w cymryd i gyflawni ei amcanion
- Sefydlu diwylliant sy'n canolbwyntio ar anghenion tenantiaid presennol a'r dyfodol, a rhanddeiliaid allweddol eraill, ac sy'n ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y sefydliad
- Sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd
- Darparu goruchwyliaeth, cefnogaeth, cyfeiriad ac her adeiladol i'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill o'r Tîm Arweinyddiaeth
- Penodi, ac os oes angen, diswyddo'r Prif Weithredwr
- Sicrhau uniondeb gwybodaeth ariannol, gosod a chymeradwyo cyllideb, cynllun busnes a chyfrifon blynyddol cyn eu cyhoeddi
- Sefydlu a goruchwylio fframweithiau rheoli risg a rheolaeth i ddiogelu asedau, cydymffurfiaeth ac enw da'r sefydliad
- Sefydlu, goruchwylio ac adolygu'n rheolaidd fframwaith o ddirprwyon i bwyllgorau ac i weithwyr
- Dal Byrddau is-gwmnïau'r sefydliad, pwyllgorau ac uwch swyddogion yn atebol am unrhyw bwerau a ddirprwywyd iddynt

**Gweithio fel rhan o dîm y Bwrdd**

Mae gan Aelod y Bwrdd gyfrifoldeb dros:

- Rhannu cyfrifoldeb am, a chefnogi, penderfyniadau'r Bwrdd
- Cymryd rhan lawn yn ngwaith y Bwrdd, gan wneud pob ymdrech i fynychu pob cyfarfod Bwrdd a digwyddiadau eraill fel cyfarfodydd cynllunio a strategaeth y Bwrdd
- Bod yn aelod o oleuaf un o Fyrddau is-gwmnïau Grŵp Barcud
- Bod yn aelod pwyllgor, a chymryd rhan mewn grwpiau gwaith neu baneli i gefnogi llywodraethu'r gymdeithas
- Gweithio'n adeiladol gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, y tîm gweithwyr ehangach a rhanddeiliaid eraill
- Ymgysylltu â'r sefydliad y tu hwnt i gyfarfodydd y Bwrdd, gan gymryd cyfleoedd i ymweld â staff a thenantiaid ac i fynychu ymweliadau safle
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Bwrdd
- Cymryd rhan weithredol yng ngwiriadau perfformiad y Bwrdd
- Cwblhau rhaglen hyfforddiant ymsefydlu o fewn chwe mis o gael ei benodi
- Cymryd rhan mewn dysgu a datblygiad ar y cyd ac yn bersonol

## MANYLEB BERSONOL AELOD Y BWRDD

**Sgiliau technegol**
Mae'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd angen ystod o sgiliau 'technegol'. Dyma'r meysydd lle mae angen un neu ddau o aelodau arbenigol – aelodau sydd, yn fwyaf tebygol, â phrofiad proffesiynol sylweddol ac, os yw'n berthnasol, cymwysterau proffesiynol. Mae'r rhain wedi'u diffinio mewn Matrics Sgiliau'r Bwrdd sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

Wrth recriwtio Aelodau newydd i'r Bwrdd, bydd y Bwrdd yn nodi'r sgiliau penodol sydd eu hangen ar y pryd.

**Cymwyseddau craidd**
Yn ychwanegol at feysydd arbenigedd penodol, mae meysydd lle mae angen lefel benodol o wybodaeth a dealltwriaeth gan bob Aelod er mwyn cyfrannu'n effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys: llywodraethu, iechyd a diogelwch, rheoli risg a rheolaeth ariannol.

Ni fyddai disgwyl i aelodau newydd feddu ar y lefel ofynnol o wybodaeth/dealltwriaeth wrth ymuno, ond disgwylir iddynt ei meistroli erbyn diwedd eu cyfnod ymsefydlu o chwe mis.

**Sgiliau cyffredinol a rhinweddau personol**
O ran sgiliau ehangach, mae angen i Aelodau'r Bwrdd allu:

- Meddwl yn strategol, gan ystyried effaith wleidyddol, economaidd, gymdeithasol a thechnolegol ar y busnes
- Gwerthuso ffeithiau a thystiolaeth yn rhesymegol, gan gynnwys dadansoddi data
- Dadansoddi risg, adnabod cyfleoedd a chyfrannu syniadau creadigol i ddatrys problemau
- Goruchwylio cyflawni amcanion y sefydliad heb ymyrryd yn ormodol mewn manylion gweithredol
- Holi a herio'n adeiladol heb greu gwrthdaro
- Adeiladu a chynnal perthnasau da yn seiliedig ar barch cydfuddiannol
- Gwerthfawrogi a pharchu'r Gymraeg a diwylliant Cymru (mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol)
- Ymrwymo i hyrwyddo anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth effeithiol

**Sgiliau a galluoedd/arbenigeddau penodol**

Bydd angen sgiliau a gwybodaeth benodol mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Profiad Adnoddau Dynol/Swyddogaeth Pobl
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Arloesedd digidol, darpariaeth ddigidol
- Trawsnewid/trawsffurfio
- Cyllid a risg

Bydd disgwyl i bob Aelod o'r Bwrdd ymrwymo i o leiaf 12 diwrnod y flwyddyn i baratoi'n drylwyr ar gyfer cyfarfodydd ac i ymgysylltu â'r Gymdeithas y tu hwnt i gyfarfodydd y Bwrdd.